

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

bwletin

gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 240 (Cymru) – 20 Mai 2019

Etholiad Senedd Ewrop: yr arweiniad a'r cymorth sydd ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad

Ym [Mwletin 236](#), gwnaethom ddarparu manylion ein gwasanaeth cyngori y tu allan i oriau dros y ffôn er mwyn ymdrin ag ymholiadau gweinyddu etholiadau brys yn y cyfnod yn arwain at etholiad Senedd Ewrop ym mis Mai 2019 ac yn syth wedyn.

Byddwn yn parhau i fod ar gael i ddarparu unrhyw arweiniad a chymorth y gall fod eu hangen arnoch drwy gydol wythnos yr etholiad, ac mae'r canlynol i'ch atgoffa o sut y gallwch gysylltu â ni rhwng 23 a 27 Mai.

Diwrnod pleidleisio (dydd Iau 23 Mai)

Rhwng 7:00am a 5:30pm – ffoniwch 0333 103 1929.

Ar ôl 5:30pm – ffoniwch 07824 464350. Caiff y rhif hwn ei staffio drwy gydol y nos ar gyfer ymholiadau brys.

Dydd Gwener 24 Mai

Rhwng 8:30am a 5:30pm – ffoniwch 0333 103 1929.

Ar ôl 5:30pm – ffoniwch 07824 464350.

Dydd Sadwrn 25 Mai, dydd Sul 26 Mai a dydd Llun 27 Mai

Ffoniwch 07824 464350. Caiff y rhif hwn ei staffio drwy gydol y penwythnos ar gyfer ymholiadau brys.

Roeddem hefyd am fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno pob lwc i chi gyd dros y diwrnodau nesaf, ac i ddiolch i chi a'ch staff am eich holl waith caled wrth i chi baratoi ar gyfer yr etholiad.

Cydnabyddwn yr heriau sylweddol rydych wedi'u hwynebu wrth baratoi ar gyfer yr etholiad, yn enwedig o ystyried yr amser a oedd ar gael i baratoi ar ei gyfer.

Mae'r sylw mawr yn y cyfryngau a'r diddordeb sylweddol a gafwyd mewn cofrestru a phleidleisio hefyd yn cael effaith uniongyrchol ar eich gwaith, gyda lefelau ymgysylltu a chanran bleidleisio uchel yn

Y

Comisiwn

Etholiadol

Cynnwys

Etholiad Senedd Ewrop: yr arweiniad a'r cymorth sydd ar gael drwy gydol wythnos yr etholiad

Nodyn atgoffa o sut i gysylltu â'r Comisiwn am arweiniad a chymorth rhwng 23 a 27 Mai.

Etholiad Senedd Ewrop: arsylwyr achrededig – nodyn atgoffa am newidiadau i ddyluniad y bathodyn

Nodyn atgoffa o newidiadau diweddar i ddyluniad y bathodynau ar gyfer arsylwyr etholiadol.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd, ac maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n

creu heriau gweinyddol y bydd angen i chi fod yn barod i'w cyflawni. Diolch i'ch ymdrechion, bydd pleidleiswyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn hyderus – a themlo'n hyderus y caiff y pleidleisiau hyn eu cyfrif mewn ffordd sy'n darparu canlyniadau sy'n gywir.

Byddwn yn adrodd ar yr etholiad, ac edrychwn ymlaen at eich adborth a'ch cymorth ar hynny yn ystod y cyfnod ar ôl yr etholiad.

Yn y cyfamser, dymunwn yn dda i chi wrth reoli'r etholiad a'r cyfrif.

.....
Etholiad Senedd Ewrop: arsylwyr achrededig – nodyn atgoffa am newidiadau i ddyluniad y bathodyn

Cyn yr etholiad ddydd lau, ac ymhellach i [Fwletin 236](#), roeddem am eich atgoffa bod dyluniad y bathodynnau rydym yn eu dosbarthu i arsylwyr achrededig wedi cael ei [ddiweddarau](#).

Caiff y dyluniadau newydd hyn eu hadlewyrchu yn [llawlyfrau'r gorsafoedd pleidleisio](#) rydym wedi'u creu ar gyfer yr etholiadau, a byddem yn eich annog i dynnu sylw staff sy'n gweithio yn y gorsafoedd pleidleisio a'r lleoliadau cyfrif at y bathodynnau newydd.

Mae enwau'r holl arsylwyr, yn unigolion ac yn sefydliadau, i'w gweld ar [ein gwefan](#).

Mae ein [Cod Ymarfer](#) yn tynnu sylw arsylwyr at y ffaith y gallai rhoi gwybod ymlaen llaw pa leoliadau y maent yn bwriadu arsylwi arnynt eu helpu i wneud arsylwadau mwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i arsylwyr etholiadol roi gwybod ymlaen llaw ble y maent yn bwriadu arsylwi ac maent yn rhydd i gynnal ymweliadau dirybudd.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.